

Trosolwg

Saturday, November 16, 2019

11:23 AM

Enw Myfyriwr: Elin Morgan

Rhif Myfyriwr: 1900424

Teitl Aseiniad: Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr) sy'n cyfleu adfyfrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Llwybr- P-PGCE

Link to OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1900424_student_uwtsd_ac_uk/EjCubNAfm95Hr4pyUUiE8JQBZO-IRk1ImZkbwVUYehWZA?e=23fvhw

Asesu ar gyfer dysgu

Saturday, November 16, 2019 11:24 AM



Tystiolaeth
Asesu ar ...

Engraifft 1

Sesiwn Gloi 10 munud	Plant i ddod i blaen y dosbarth i ddangos ei darluniadau ac esboniadau. Meddwl, paru, rhannu – 2 seren a ddymuniad.	Plant yn arddangos ei waith. Asesu cyfoedion-meddwl, paru, rhannu trwy ddefnyddio 2 seren a dymuniad	Gwaith y plant Asesu cyfoedion yn cynllun a adfyfrio gwers
Dadansoddiad Adfyfyriol o Addysgu a Strategaethau ar gyfer Datblygiad – gan gynnwys cyfiawnhad/rhesymwaith dewisiadau pedagogaidd			
Tystiolaeth o'm Harfer Effeithiol	Defnyddiais y strategaeth meddwl, paru, rhannu er mwyn i'r plant mynd ati i asesu gwaith ei gilydd. Ymatebodd y plant yn dda ac yn synhwyrol. Mae hyn yn gysylltiedig gyda'r SAC isod; Mae'r darpar athro'n arddangos parodrwydd i geisio a gwrando ar farn dysgwyr, ac ystyried y farn honno, er mwyn eu cynnwys a'u hannog i gymryd rhan weithredol a llawn yn eu dysgu eu hunain. Wrth gynllunio, mae'r darpar athro'n arddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd annog dysgwyr i fyfrio ar ymddygiadau dysgu a rhagolygon dysgu a'u gwerthuso. Yn y wers yma defnyddiais strategaethau ymddygiad corfforol megis bys ar fy nhwg a chyswllt llygaid er mwyn tawelu a derbyn sylw'r plant. Fe wnes i wahaniaethu'r gwaith, roedd rhaid i un grŵp ysgrifennu 3 brawddeg i gymharu â 5.		
Meysydd ar gyfer fy Natblygiad Targedau Personol ar gyfer Cynnydd	Hybu annibyniaeth y plant os nad ydynt yn gwybod gair neu'r sillaf gywir. Arbrofi gyda strategaethau asesu ar gyfer dysgu ysgrifenedig yn lle ar lafar. Parhau i arbrofi a defnyddio strategaethau ymddygiad corfforol.		

Roedd dosbarth o 24 o blant ym Mlwyddyn 5 yn cyflawni'r dasg yma. Dewisais ddylunio pabi neu fedal newydd ar gyfer Dydd y Cofio er mwyn hybu creadigrwydd y disgyblion. Mae'r testun yma'n ddwys iawn ac felly roeddwn i eisiau i'r plant gwneud rhywbeth ysgafn a gwahanol i'r arfer. Wrth iddynt ymchwilio ar y we am syniadau roeddent yn datblygu eu sgiliau fel dinasyddion egwyddorol gwybodus a chyfranwyr mentrus creadigol. Roeddent yn ymchwilio am syniadau i gynnwys ar eu darluniadau newydd. Ar ôl iddyn nhw orffen eu darluniadau roedd rhaid iddyn nhw labeli'r darlun gan ddisgrifio beth a pam maent wedi defnyddio'r lluniau neu eiriau penodol. Roedd y disgyblion wedi creu nifer o ddarluniadau diddorol a hyfryd, teimlaf yn

hapus ac yn falch gydia'i waith. Er hyn teimlaf gallai wedi hybu annibyniaeth y plant yn fwy yn ystod y dasg. Roedd llawer o unigolion yn gofyn i mi am air yn Gymraeg neu sut i sillafu gair ac yn lle annog nhw i ddefnyddio geiriadur fe wnes i roi'r ateb iddyn nhw. Creda Donaldson dylai plant cymryd cyfrifoldeb dros dysgu eu hun (Donaldson, 2015, t.69). Felly yn fy ngwersi yn dilyn yr un yma rydw i am annog y disgyblion i edrych yn y geiriadur neu ofyn i ffrind yn hytrach na fi'r addysgwr yn dweud yr ateb iddynt. Penderfynais ddefnyddio meddwl, paru, rhannu fel rhan o asesu cyfoedion er mwyn arbrofi gyda thechnegau trafod gwahanol. Roeddwn i eisio gweld sut oedd sgiliau beirniadol y plant felly penderfynais gynnwys dwy seren a dymuniad wrth iddynt asesu gwaith eu cyfoedion hefyd. Roedd y plant yn mwynhau trafod mewn parau a rhannu beth oedden nhw'n hoffi am waith ei gilydd a tharged i wella'r gwaith yn y dyfodol. Fe fyddai'n parhau i ddefnyddio'r strategaethau yma gan eu bod wedi gweithio'n effeithiol iawn. Ond hoffwn hefyd arbrofi gyda strategaethau asesu ar gyfer dysgu ysgrifenedig yn lle ar lafar i weld os ydy ymateb y disgyblion yn newid i'r fath yma o asesu.



Tystiolaeth
Asesu ar ...

Engraifft 2

Sesiwn Gloi 15 munud	Asesu dysgu'r plant-plant i ddod i'r bwrdd gwyn rhyngweithiol a defnyddio lliwiau gwahanol i ddangos y mathau o eiriau gwahanol.	Plant yn dod i fyny i'r bwrdd gwyn rhyngweithiol ddangos y mathau o eiriau gwahanol yn yr erthygl.	Bwrdd gwyn rhyngweithiol, Erthygl papur newydd
--	--	--	---

Gwerthuso'r hyn y mae Disgyblion yn ei Ddysgu

Tystiolaeth o Ddysgu (gan gynnwys agwedd at ddysgu dros amser))	Erbyn diwedd y wers roedd bron pawb wedi gorffen anodi'r erthygl papur newydd gan ddefnyddio lliwiau gwahanol. Roedd y plant wedi dyfalbarhau, datrys problem a chydweithio ar ddechrau'r gweithgaredd gan fod problem gyda 'Google Classroom'. Teimlaf fod y plant wedi cyd weithio'n effeithiol ar y cyfan ond am 2 par, roedd rhaid i mi newid y parau yma gan fod dysgu'r plant ddim o safon effeithiol. Wrth i'r plant mynd ati i anodi'r erthygl papur newydd roeddent yn annibynnol iawn. Yr unig gwestiwn gofynnodd tri grŵp i mi oedd nad ydy'r gair trychineb ac anffodus yn y Geiriadur Gomer roeddent yn defnyddio. Gwelais newid mawr yn dealltwriaeth y plant ar ddiwedd y sesiwn yn ystod y sesiwn gloi. Yn ystod y sesiwn yma fe wnaethon ni anodi'r erthygl gyda'n gilydd fel dosbarth ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Roedd y plant yn medru adnabod yr ansoddeiriau, cymariaethau, cyf lythrennu ac enwau yn hyderus iawn.
Y Camau Nesaf ar gyfer Cynnydd	Sylweddolais fod un bachgen yn eithaf diog a ddim yn cyd-weithio yn ystod y dasg, felly symudais ef a chwestiynu ef er mwyn sicrhau ei fydd yn dysgu. Yn ystod y gwersi nesaf fe fyddai'n wyladwrsu o'r unigolyn yma a gwneud yn siŵr fy mod yn ei gwestiynu ef am ei waith.


Dadansoddiad Adfyfyriol o Addysgu a Strategaethau ar gyfer Datblygiad – gan gynnwys cyfiawnhad/rhesymwaith dewisiadau pedagogaid

Tystiolaeth o'm Harfer Effeithiol	Defnyddiais ffyn loliopop er mwyn dewis parau ar gyfer y dasg, penderfynais i arbrofi gyda'r ffinau loliopop gan fod hyn yn cysylltu gyda tharged yr wythnos gyntaf. Yn ystod y sesiwn gloi fe wnaeth y disgyblion dangos a thrafod ansoddeiriau, cymariaethau, cyf lythrennu, enwau'r erthygl gan danline llw gyda'r lliw cywir ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Roedd y gweithgaredd yma yn ddull asesu dealltwriaeth y plant o'r wers a'i dysgu annibynnol, mae hyn yn gysylltiedig gyda'r SAC; Asesu:-Deall a chyfleu ystod o ddibenion ac arferion ar gyfer asesu.
-----------------------------------	--


	plant o'r wers a'i dysgu annibynnol, mae hyn yn gysylltiedig gyda'r SAC;
	Asesu:-Deall a chyfleu ystod o ddibenion ac arferion ar gyfer asesu.
	Myfyrio ar ddysgu:-

Roedd dosbarth o 24 o blant ym Mlwyddyn 5 yn cyflawni'r dasg yma. Y dasg oedd i uwcholeuo ansoddeiriau, cymariaethau, cyf lythrennu ac enwau yn yr erthygl papur newydd. Roedd y dasg yma'n gam bwysig i'r plant gan ei bod yn adeiladu i fyny at ysgrifennu erthygl papur newydd yn yr wythnos ganlynol gan ddefnyddio'r eirfa hon. Yn ystod sesiwn agoriadol y wers darllenas trwy'r erthygl gyda'r plant. Daeth y plant allan i'r bwrdd gwyn rhyngweithiol a defnyddio lliwiau gwahanol er mwyn tanlinellu'r geiriau gwahanol. Roedd hyn wedi galluogi mi i asesu dealltwriaeth y plant ynglŷn â'r mathau gwahanol o eiriau sydd yn yr erthygl. Roedd y dasg yn un par a defnyddiais ffyn loli er mwyn dewis y parau am y tro gyntaf yn ystod y wers. Teimlaf yn hapus ar y cyfan gyda'r parau ar hap yma. Sylweddolais fod un bachgen yn eithaf diog a ddim yn cyd-weithio'n effeithiol yn ystod y dasg, felly cefais sgwrs gydag e er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd cyd-weithio er mwyn iddo allu dysgu'n effeithiol. Mae pedadgogedd 12 yn trafod pwysigrwydd cyd-weithio (Donaldson, 2015, t.70). Yn ystod y gwersi nesaf fe fyddai'n wyladwrus o'r unigolyn yma a gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio o fewn par neu grŵp yn effeithiol. Yn ystod sesiwn gloi'r wers es i nôl i'r dasg gychwynnol er mwyn asesu dysgu'r disgyblion o fewn eu parau. Daeth y plant fyny'r i'r bwrdd gwyn rhyngweithiol er mwyn tanlinellu'r gwahanol fath o eiriau yn yr erthygl. Gwelais wahaniaeth mawr yn hyder y plant wrth iddynt ymwneud ar dasg yma. Roedd yn amlwg i mi eu bod wedi dysgu'r gwahanol fathau o eiriau sydd yn yr erthygl. Wrth i'r plant tanlinellu ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol gofynnais i weddill y plant os oeddent yn cytuno gyda'r unigolyn er mwyn hybu asesu cyfoedion a chyd-weithio'r disgyblion. Os oeddent yn anghytuno roedd rhaid i'r disgybl esbonio pam. Gweithiodd hyn yn effeithiol a gwelais annibyniaeth y plant yn cael eu dangos wrth iddynt ymwneud ar dasg hyn. Y disgyblion oedd yn arwain dysgu eu hun yn ystod y dasg asesu yma a braf oedd gweld hyn. Teimlaf yn falch ac yn hapus iawn gyda dysgu'r plant yn ystod y dasg yma, roedd gwahaniaeth mawr yn ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y disgyblion ynglŷn â'r gwahanol fathau o eiriau yn yr erthygl.

Engraifft 3



Dyma esiamplau slipiau asesu




Roedd dosbarth o 24 o blant yn cyflawni'r dasg yma. Tasg y wers oedd ysgrifennu erthygl papur newydd yn seiliedig ar Cantre'r Gwaelod. Dewisais ddefnyddio asesu gwaith cyfoedion yn ysgrifenedig ar slip yn ystod y dasg yma gan fy mod eisiau arbrofi gydag asesu cyfoedion ysgrifenedig yn lle ar lafar. Adlewyrchais i'r plant dylai'r sylwadau ar y slip asesu deillio o feini prawf llwyddiant y wers. Felly'r defnydd o ansoddeiriau, cymariaethau, cyf lythrennu ac enwau

cywir. A hefyd fe wnes i roi cynigion i'r plant megis ysgrifennu'n daclus a defnyddio atalnodi priodol. Roedd plant o lefel uwch y dosbarth wedi rhoi sylwadau synhwyrol a oedd yn cyd-fynd gyda'r meini prawf. Roedd plant o allu canolig yn gweld hi'n anodd gwybod beth i ysgrifennu felly teimlais nad oedd yr unigolion yma wedi buddio o asesu gwaith eu cyfoedion yn ysgrifenedig. Ges i drafodaeth yn yr wythnosau gyntaf gyda'r mentor dosbarth ynglŷn â slipiau asesu yn llyfrau'r plant gan nad oedden nhw'n eu defnyddio. Dywedodd y mentor i mi nad oedd hi'n meddwl roedd y defnydd o'r slipiau yma'n effeithiol i'r plant i gyd felly dydy hi ddim yn eu defnyddio. Er hyn roeddwn i eisiau ymchwilio a gweld beth oedd ymateb y plant i'r ffyrdd o asesu hyn. Teimlaf ar ôl i'r plant cyflawni hyn, cytunaf gyda'r athrawes, dim ond plant o lefel uwch y dosbarth oedd yn medru defnyddio'r slipiau asesu yn effeithiol ac yn gywir. Felly yn y dyfodol fe fyddwn yn defnyddio taflen enghreifftiol sy'n cynnwys rhai datganiadau er mwyn helpu'r plant i lenwi'r slip asesu yma, i weld os ydy hyn yn cael unrhyw effaith. Er fy mod wedi dweud sawl tro yn ystod y wers bod angen defnyddio'r mat geiriau er mwyn cynnwys ansoddeiriau, cymariaethau a cyf lythrennu wrth farcio'r gwaith sylweddolais fod sawl disgybl heb ddefnyddio'r mat yma. Yn ystod tasg ysgrifenedig yn y dyfodol fe fyddai'n gwneud yn siŵr i ddarllen gwaith y disgyblion yma yn ystod y wers a rhoi adborth yn syth er mwyn sicrhau bod ei waith o safon dda. Mae rhoi adborth yn hynod o bwysig er mwyn i'r dysgwyr gallu symud ymlaen yn eu dysgu (Hattie a Yates, 2014, t.66).



Tystiolaeth
plant me...

Engraifft 1



- ☐ I:
- ☐ Pwnc:
- ☐ Oddi wrth:
- ☐ Beth? _____
- ☐ Ble? _____
- ☐ Pryd? _____
- ☐ Dechrau? _____
- ☐ Gorffen? _____
- ☐ Gweithgareddau _____
- ☐ Pris _____
- ☐ Bwyd ar gael _____
- ☐ Pa elusennau mae'r arian yn helpu? _____
- ☐ Faint o arian mae'r elusennau yn derbyn? _____

Dyma engraifft o e-bost gorffenedig par. Mae'r meini prawf llwyddiant y dasg o dan a gellir gweld y mae'r par wedi ysgrifennu'r e-bost gan ddilyn y meini prawf llwyddiant.

Amcanion Dysgu a Meini Prawf

Llwyddiant yn hyrwyddo llythrennedd
yn drawsgwricwlaidd gan fod y dasg
yn seiliedig ar Ddiwrnod o Hwyl i Blant
Mewn Angen.

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy):

Bydd disgyblion yn dysgu i wneud y canlynol:

Erbyn diwedd y sesiwn fe fydd disgyblion mewn parau wedi ysgrifennu e-bostio ffrind er mwyn eu gwahodd nhw i Ddiwrnod o Hwyl er mwyn codi arian i Plant mewn Angen. Fe fydd yr e-bost yn cynnwys brawddegau llawn er mwyn ateb; beth, ble, pryd, pa fwyd a weithgareddau fydd ar gael yn ogystal a pa elusennau bydd yr arian a chodwyd yn ei helpu.

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy): Bydd disgyblion yn dysgu i wneud y canlynol: Erbyn diwedd y sesiwn fe fydd disgyblion mewn parau wedi ysgrifennu e-bostio ffrind er mwyn eu gwahodd nhw i Ddiwrnod o Hwyl er mwyn codi arian i Plant mewn Angen. Fe fydd yr e-bost yn cynnwys brawddegau llawn er mwyn ateb; beth, ble, pryd, pa fwyd a weithgareddau fydd ar gael yn ogystal a pa elusennau bydd yr arian a chodwyd yn ei helpu.
--

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
Fe fydd plant yn deall beth ydy e-bost a sut i ysgrifennu un. Mae rhaid i'r e-bost cynnwys beth, ble, pryd, pa fwyd a weithgareddau fydd ar gael yn ogystal a pa elusennau bydd yr arian a chodwyd yn ei helpu. Fe fydd rhaid i'r ddisgyblion ymchwilio ar y we i ddarganfod gwybodaeth am yr elusennau bydd yr arian a codwyd yn mynd tuag at yn Maesteg.	Yn gallu trafod beth ydy gwaith Plant mewn Angen Cynhyrchu e-bost er mwyn gwahodd ffrind i Diwrnod o Hwyl ar gyfer codi arian i Plant mewn Angen. Ymchwilio i'r elusennau mae'r arian a codwyd yn mynd tuag at yn Maesteg.

	Fe fydd disgyblion mewn parau yn ysgrifennu e-bost er mwyn gwahodd ffrind i'r Diwrnod o Hwyl. Fe fydd y disgyblion yn defnyddio'r poster Diwrnod o Hwyl er mwyn ysgrifennu'r e-bost. Wrth ysgrifennu'r e-bost fe fydd rhaid defnyddio brawddegau llawn a chryno ferfau- cyflwyno hyn fel her. Dangosesiamp o e-bost.		
Addysgu a Dysgu Craidd 1 awr	Crwydro i wneud yn siwr bod pawb yn deall ac ar dasg. Gwneud yn siwr bod y disgyblion yn defnyddio brawddegau llawn a chryno ferfau yn ei e-bost.	Plant yn gweithio mewn parau i ysgrifennu e-bost i wahodd ffrind i'r Diwrnod o Hwyl Gwahaniaethu- Cynnwys brawddegau agoriadol er mwyn helpu rhai disgyblion	Cyfrifiaduron yn y swit, Tudalen sy'n cynnwys cryno ferfau defnyddiol Tudalen sy'n cynnwys brawddegau agoriadol ar gyfer y gwahaniaethu.


Teimlaf yn hapus gyda'r dasg yma a sut cyflawnodd y disgyblion y dasg. Roedd 24 o ddisgyblion blwyddyn 5 yn ymwneud a'r dasg yma. Roedd yn dasg annibynnol o fewn parau ac roedd rhaid ysgrifennu e-bost i ffrind gan ddilyn y meini prawf llwyddiant. Creais boster ar gyfer hysbysebu diwrnod o hwyl ar gyfer Plant mewn Angen. Roedd y poster yn cynnwys ble, pryd, pa weithgareddau, pa fath o fwyd a pha elusennau bydd yr arian a chodwyd yn helpu. Wrth gynllunio roedd elfennau trawsgwricwlaidd wedi ei chreu yn naturiol. Sgiliau llythrennedd oedd y sgil mwyaf roeddwn i eisiau'r plant ddatblygu wrth ysgrifennu'r e-bost. Dewisais i ddatblygu'r sgil yma gan fod y athrawes dosbarth wedi datganu i mi nad ydy'r plant yn hoffi gwneud gwaith ysgrifennu, mae well ganddyn nhw gwneud gwaith ysgrifennu yn ddigidol ar y 'Chromebooks'. Roeddwn i eisiau arbrofi felly i weld os oedd y disgyblion yn fwy barod i ysgrifennu ar y

cyfrifadur i gymharu a ar bapur. Roeddwn i'n hapus iawn gyda gwaith y plant yn ystod y wers yma, roedden nhw'n gweithio'n annibynnol gan ddefnyddio adnoddau rhoddais iddynt. Roedd yr adnoddau yma'n cynnwys meini prawf yr e-bost yn ogystal a brawddegau/ geiriau agoriadol. Yn edrych yn ol teimlaf ni ddylai wedi darparu'r brawddegau agoriadol yma i'r disgbylion gallu uchel, er mwyn datblygu eu sgiliau ysgrifennu annibynnol yn enwedig sut i strwythuro brawddeg yn gywir. Fe wnes i wahaniaethu'r dasg ar gyfer y plant sydd yn gwan gan greu templed iddynt gwblhau gan gyfeirio yn ôl at y poster. Roedd gan eraill templed syml iawn oedd yn dangos at bwy ac oddi wrth bwy oedd yr e-bost.



Tystiolaeth
cymhwys...

Engraifft 2





Tystiolaeth cylched

Gwerthuso'r hyn y mae Disgyblion yn ei Ddysgu	
Tystiolaeth o Ddysgu (gan gynnwys agwedd at ddysgu dros amser))	Roedd y plant yn adnabod beth oedd angen i greu cylched a fydd yn goleuo'r bwlb. Aethon nhw ati i greu cylched yn ei pharau, roedd y plant yn mwynhau arbrofi ar y rhaglen i weld beth oedd yn goleuo neu ddiffodd y bwlb. Roeddent yn ymateb yn wych ac yn synhwyrol i heriau a chwestiynau fe wnes i osod. Mae hyn yn gysylltiedig gyda SAC; Herio a disgwyliadau Er mwyn ysgogi'r dysgwyr i gyflawni, mae'r heriau a'r disgwyliadau y mae'r darpar athro'n eu gosod ar lefel briodol ar gyfer yr ystod o alluoedd a nodweddion sydd ymhlith y dysgwyr. Ar ddiwedd y wers wrth i mi adeiladu cylched 'anghywir' ar y rhaglen roedd y plant yn medru esbonio pam nad oedd y bwlb yn goleuo. Adlewyrchodd hyn bod eu harbrofi mewn parau trwy'r rhaglen 'circuit construction' wedi datblygu eu dealltwriaeth am gylchedau trydan. Gan fod y wers yma yn ystod sesiwn olaf y dydd roedd amser yn brin gan fod y plant yn hwyr yn dod i mewn ar ôl amser egwyl. Yn y dyfodol hoffai gwneud yn siŵr bod digon ac amser gyda'r plant er mwyn cwblhau'r dasg. Roedd y plant i gyd wedi medru cwblhau'r dasg ond roedd rhaid i mi roi 'mini-plenary' iddyn nhw yn gynt nac oeddwn i eisiau. Tro nesaf hoffwn ddefnyddio 'Google Classroom' er mwyn rhannu'r linc i'r wefan er mwyn arbed amser hefyd.
Y Camau Nesaf ar gyfer Cynnydd	I fod yn wiliadwrus gyda'r ddwy ferch nad oedd yn gyd weithio'n dda gydia'i gilydd.

Roedd y wers yma'n cynnwys 24 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 5. Yn y wers flaenorol fe wnaeth yr athrawes dosbarth addysgu gwers ynglŷn â chylchedau trydanol ac aeth y plant ati i greu'r cylchedau yma'n ymarferol. Ac felly er mwyn adlewyrchu dysgu'r plant o'r wers flaenorol yma (Donaldson, 2015, t.67) cynlluniais i'r plant defnyddio rhaglen ar y cyfrifiadur er mwyn creu cylched trydan i oleuo'r bwlb. Prif nodwedd y wers yma oedd Cymhwysedd Digidol gan fod y plant yn defnyddio rhaglen newydd iddyn nhw sef 'circuit constructor' ar wefan Phet er mwyn creu cylched trydan yn rhyngweithiol. Argraffais gyfeiriad y we ar gyfer y wefan, felly'r dasg gyntaf i'r plant oedd ysgrifennu'r cyfeiriad yma i mewn i'r 'search bar'. Yn anffodus nid oedd rhai parau yn medru ysgrifennu hyn i mewn yn gywir neu doedd y cyfeiriad dim yn gweithio. Roedd rhaid i mi felly crwydro o gwmpas y swîth cyfrifiaduron a dod o hyd i'r rhaglen ar y wefan i'r plant. Er mwyn arbed amser yn y dyfodol fe fyddwn yn rhoi linc i'r wefan yma ar 'Google Classroom' er mwyn i'r plant peidio â cholli amser dysgu. Nid oedd llawer o amser yn ystod y wers yma gan fod y plant wedi dod i mewn yn hwyr ar ôl amser chwarae. Er hyn teimlais fod gan y plant ddigon o amser i arbrofi gyda'r rhaglen, roedd rhaid i mi wneud y 'mini plenary' yn fwy buan oherwydd yr amseri hyn.



Engraifft 3



A ---	N ---
B ----	O ----
C ----	P ----
D ---	Q ----
E ---	R ---
F ----	S ----
G ----	T ---
H ----	U ---
I ---	V ----
J ----	W ----
K ---	X ----
L ----	Y ----
M ---	Z ----



PIC-COLLAGE

Dyma lun o'r codau defnyddiodd y plant i ddatrys negeseuon cudd a chreu negeseuon gan ddefnyddio'r codauyma.

Nod i ddefnyddio côd Mair Russell Jones a'r Morse Code er mwyn dod o hyd i neges gudd ac ysgrifennu enw a neges yn defnyddio'r codau.

Eich enw llawn.

Dyma'r negeseuon roedd rhaid i'r plant troi mewn i côd.

Enw ffrind.

Gelyn yn yr awyr.

Almaen wedi glanio yn Abertawe.

Mae angen help yn Maesteg.





Ffocws Gwers:	I ddefnyddio côd er mwyn dod o hyd i'r neges gudd, a chreu enw a neges gudd wrth ddefnyddio'r côd.
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	Cwricwlwm Cymreig- hanes Mair Russell- Jones Cysylltiad gyda 4 diben Donaldson: Dysgwyr uchelgeisiol galluog- yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau, Unigolion iach hyderus- yn wynebu heriau ac yn eu trechu <i>Sgiliau- trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd,</i> <i>adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad,</i> <i>cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy, glwm sy'n llifo'n naturiol.</i>
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Rhifedd- yn gallu darllen, defnyddio a chreu codau yn effeithiol Llythrennedd- ysgrifennu'r neges gudd yn Gymraeg a chreu ei enw a neges gudd gan ddefnyddio'r côd.

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
Yn gyntaf fe fydd disgyblion yn deall ac yn gwybod pwysigrwydd swydd Mair Russell- Jones yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fe fydd disgyblion yn mynd ati i gracio'r côd er mwyn dod o hyd i'r neges gudd.	Cynnig ac yn ateb cwestiynau Datrys y côd ac ysgrifennu'r ateb i'r neges gudd. Creu enw gan ddefnyddio'r côd a chreu neges gudd eu hun gan ddefnyddio'r côd.

Pan maent wedi dod i hyd i'r neges gudd fe fydd disgyblion yn gallu creu ei enw gan ddefnyddio'r côd ac ysgrifennu neges gudd ar sail rhyfel wrth ddefnyddio'r côd.	
--	--

Gan ei fod yn Ddydd y Cofio yn ystod yr wythnos felly cynlluniais wers o ddatrys a chreu codau. Gan fod Dydd y Cofio yn destun dwys iawn roeddwn i eisiau dod o ochr wahanol er mwyn dysgu'r plant am elfen wahanol o'r rhyfel yn enwedig ymrwymiad menywod yn ystod y rhyfel. Teimlaf bydd y dasg yn ennyn diddordeb y plant gan ei bod yn mwynhau codio. Roedd y dasg hefyd yn cyd-fynd gyda nofel Saesneg y dosbarth sef 'Alex Rider Stormbreaker'. Creda Donaldson bod angen i addysgu a dysgu da adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol y dysgwyr gyda diddordeb y plant mewn golwg (Donaldson, 2015, t.67). Adlewyrchais dylai'r plant defnyddio'r hyn maent wedi ei dysgu am ysbiwyr trwy'r nofel yma er mwyn datrys y codau a mynd ati i gwblhau'r dasg. Er mwyn dysgu a dathlu Dydd y Cofio dewisais i addysgu'r plant am waith Mair Russell Jones ym Marc Bletchley gan fod hyn yn hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig. Roedd dosbarth o 24 o ddisgyblion blwyddyn 5 yn cwblhau'r tasgau yma o gracio codau gwahanol. Rodd y dasg yma'n datblygu sgiliau rhifedd o godi a hefyd sgiliau lythrennedd y plant. Rhoddwyd cod i'r plant, roedd lythrennau'r cod yn cyd-fynd gyda llythrennau'r wyddor Cymraeg. Roedd gan y plant neges yn llythrennau'r cod ac roedd rhaid iddynt ddatrys y cod gan ddarllen pa llythyren cod oedd yn cyd-fynd gyda'r llythyren Cymraeg oedd yn cyd-fynd. Ar ôl iddynt ddatrys y neges aethant i greu codau ei hun gan ddefnyddio ei enwau, enw ffrind a brawddegau ynglŷn â'r rhyfel.

Ar ôl ddatrys cod Mair Russell Jones, rhoddais god Morse ysgrifenedig iddyn nhw ac aethant i ysgrifennu negeseuon o'r Gymraeg mewn i god Morse. Er bod y plant wedi ymateb yn wych i'r wers ac wedi mynd ati yn dda i gwblhau'r dasg teimlaf dylai sesiwn gloi fy ngwers wedi cynnwys cwis er mwyn adlewyrchu eu dysgu am y testun newydd hyn. Er fy mod wedi gofyn cwestiynau i'r plant yn ystod y sesiwn yma teimlaf fod cwis yn ffordd dda a hwyl er mwy mesur dysgu'r plant. Er fy mod wedi esbonio pa eiriau maent angen ei ddatrys ac arddangos hyn ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, fe wnaeth llawer iawn o'r disgyblion codi ei law i ddweud ei bod wedi gorffen. Ond nid oedd hyn yn wir, roeddent wedi gorffen datrys un neges. Y tro nesaf byddaf yn rhoi'r hyn hoffwn i'r plant ddatrys ar dudalen a phrintio er mwyn ei rhoi fel adnodd i'r plant. Wrth adfyfrio'n gritigol yn ysgrifennu'r traethawd sylweddolais fe ddylai wedi gwahaniaethu'r dasg yma'n fwy enwedig i'r plant o lefel gallu uchel y dosbarth. Yn lle rhoi brawddeg iddynt ysgrifennu mewn cod, yn edrych nôl dylai wedi dweud wrthyn nhw ysgrifennu brawddeg ei hun er mwyn ymestyn nhw'n fwy.

Cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol.

Saturday, November 16, 2019 11:25 AM



Tystiolaeth
datrys pr...



Tystiolaeth datrys problem- Adeiladu wal



Engraifft 1

Er mwyn adeiladu'r morglawdd mae'r Brenin Gwyddno Garanhir angen gwybod faint bydd y gost. Gan ddefnyddio cost pob uned a'r gymhareb sydd ei angen, cyfrifwch y gost gwneud 1 llond cymysgwyr sment.

Nwyddau	Uned	Cynnwys	Côst
Tywod	bag	25kg	£2.00
Sment	bag	25kg	£3.00
Dŵr	bwced	5L	£0.20
Hylif Gludo	botel	250 ml	£1.00
Bricsen	palet	100	£10.00

Nwyddau	Nifer o unedau	Côst
Tywod	3	£
Sment	1	£
Dŵr	2	£
Hylif gludo	2	£

Cyfanswm	£
----------	---





Mae 1 cymysgwr sment yn rhoi digon o gymysgedd i osod 100 o friciau. Mae hyn yn rhoi cymhareb o Gymysgwr/ Briciau 1:100.

Mae 1 uned yn cynnwys 100 o frics.

Mae'r morglawdd sydd angen ei hadeiladu angen 200 o friciau.

Cyfrifwch sawl uned o bob un o'r nwyddau sydd eu hangen ar gyfer adeiladu'r wal.

Nwyddau	Nifer o unedau
Tywod	3
Sment	1
Dŵr	2
Hylif Gludo	2

Nwyddau	Uned sydd eu angen
Briciau	2
Sment	
Tywod	
Dŵr	
Hylif Gludo	



Roedd y wers datrys problem yma ar gyfer 24 o ddisgyblion Blwyddyn 5. Y broblem i ddatrys oedd adeiladu morglawdd ar gyfer Brenin Gwyddno Garanhir gan fod y plant yn gwneud gwaith ar Gantre'r Gwaelod. Roedd y dasg felly'n adlewyrchu dysgu blaenorol y plant a dyma pam dewisais y wers yma. Roeddwn i eisiau i'r plant gweld y chwedl mewn ffordd wahanol i beth maent wedi ei arfer o weld sef mewn ffordd llythrennedd. Gweithiodd y plant mewn parau er mwyn datrys y problemau oedd yn seiliedig ar adeiladu morglawdd. Roedd rhaid datrys faint o arian bydd y nwyddau yn costio a faint yn fwy o nwyddau bydd angen os mae rhaid dyblu'r maint. Ar ôl i'r plant datrys y broblem roedden nhw wedi llwytho eu gwaith ar 'Seesaw' fel ffyrdd o asesu er mwyn dangos sut oedden nhw wedi datrys y broblem. Dewis y plant oedd sut oedden nhw am dangos ei gwaith ar 'Seesaw' fel creu fideo neu greu llun oedd wedi ei anodi.

Adlewyrchais y camau roedd angen y plant eu dilyn er mwyn gallu datrys y broblem gan gyfeirio at wal Mathemateg y dosbarth. Wrth adfyfyrir wers yma teimlaf roedd y broblem yn rhy hawdd i unigolion lefel uwch y dosbarth. Y tro nesaf fe fyddai'n rhoi problem wahanol i blant lefel uwch y dosbarth i gymharu â'r eraill i weld os ydy hyn yn gwneud gwahaniaeth. Teimlaf fy mod wedi cynllunio'n briodol ar gyfer dwy broblem i ddatrys ar ôl dysgu o wers flaenorol lle nad oedd digon o weithgareddau wedi ei gynllunio i'r plant.



Tystiolaeth
Hawliau P...

Engraifft 2



Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
Fe fydd disgyblion yn deall beth ydy gwaith Hawliau Plant Cymru a sut mae'r hawliau yma yn effeithio arnyn nhw.	Deall beth ydy gwaith Hawliau Plant Cymru a phwysigrwydd yr hawliau yma iddyn nhw.
O fewn grwpiau fe fydd disgyblion yn mynd ati i ddioli 15-20 erthygl i mewn i'r 4 diben.	Deall ystyr yr erthyglau.
Fe fydd grŵp arall yn didoli'r erthyglau i mewn i ddiemwnt 9 gyda esboniad byr i gydfynd.	Didoli'r erthyglau i mewn i'r diben/dibenion cywir, datblygu sgiliau beirniadol er mwyn didoli'r erthyglau i mewn i ddiemwnt 9.
Fe fydd y gweithgareddau yma'n cylchdroi er mwyn i bawb allu	

Gan ei fod yn ben-blwydd Hawliau Plant i Gymru dewisais i ddysgu gwers ymarferol ar y testun yma. Dewisais wers ymarferol gan fy mod yn teimlo fy fyddai'n medru arsylwi ar sgiliau beirniadol y plant yn well i gymharu â thasg fwy strwythuredig megis ysgrifennu. Yn ystod y wers fe roedd dwy dasg a oedd yn cylchdroi hanner ffordd trwy'r wers. Roedd y plant yn gweithio o fewn grwpiau o chwech, roedd pedwar grŵp yn gyfan gwbl. Un dasg oedd didoli tua 20 erthygl hawliau plant i mewn i'r pedwar diben. Y dasg arall oedd dewis naw o'r 20 erthyglau Hawliau Plant er mwyn didoli i mewn i ddiemwnt 9. Roedd cynllun clebran yn ystod y dasg hefyd, roedd rhaid i un person mynd i grŵp arall ac esbonio pam maent wedi didoli'r erthyglau i mewn i'r dibenion a'r diemwnt naw. Teimlaf yn hapus iawn gyda sgiliau beirniadol y plant yn ystod y wers, roeddent yn gallu mynegi pam oeddent wedi didoli'r erthygl yn hyderus i mi. Credaf fod sgiliau'r plant o feddwl mewn modd beirniadol wedi buddio o wneud y dasg ymarferol hon. Prif nodwedd y dasg oedd cyfathrebu mewn grŵp gan roi rhesymeg dros ble dylai'r erthygl cael ei didoli. Wrth arsylwi a chrwydro'r dosbarth sylweddolais roedd rhai aelodau'r grŵp ddim yn cyfrannu llawer i'r drafodaeth. Felly rydw i am weithio gyda'r aelodau yma er mwyn datblygu eu sgiliau cyd-weithio. Sylweddolais roedd rhai unigolion y grŵp yn eithaf tawel a swil ond roedd eraill yn arwain y grŵp. Mae'r sgil o gyd-weithio yn holl bwysig yng Nghwricwlwm 2022 (Donaldson, 2015, t.70) ac yn sgil bywyd go iawn. Roedd dosbarth o 24 disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn cwblhau'r dasg yma.



tystiolaeth
paentio

Engraifft 3

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddola chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol) 10-15 munud	Cyflwyno'r dasg- fe fydddech chi'n paentio wrth wrando ar ddarn o gerddoriaeth speciffig. Cyflwyno'r darn o gerddoriaeth gyda hanes bras y darn - pwerbwyt Gwrando ar y gerddoriaeth am 2 funud trwyddo. Cwestiynu'r plant a gofyn beth oedden nhw'n meddwl a dychmygu wrth wrando ar y gerddoriaeth. Gwrando ar y 2 funud eto ond stopio trwy'r darn er mwyn cwestiynu'r plant- asesu ffurfiannol; Ydych chi'n gallu dweud rhywbeth am y darn? Pa offerynnau ydych chi'n gallu clywed? Ansawdd Beth ydy cyflymder y darn? Cyflym, eithaf araf, araf, eithaf araf Beth ydy traw'r darn? Traw'r utgorn, traw'r ffidil - uchel ac isel Ansawdd- pa fath o sain- offerynnau llinyndol- ffidil, fiola, sielo, bas dwbl. Gwead- 'texture' trwchus- mwy na un offeryn Dynmeg- cryf neu tawel - cryf uchel.	Asesu ffurfiannol ar ôl gwrando ar glip o'r gerddoriaeth. Cynnig atebion i'r cwestiynau gofynnir a mynegi ei theimladau am y darn o gerddoriaeth. Hyrwyddo sgiliau gwrando a datblygu geirfa cerddorol

	Tempo – cyflymder y darn-eithaf araf	
Addysgu a Dysgu Craidd	Crwydro'r dosbarth i wneud yn siŵr bod pawb ar dasg. Pan mae'r plant wedi dechrau paentio gofyn cwestiynau iddynt; Sut mae'r darn o gerddoriaeth yn gwneud i chi deimlo? Pa offerynnau ydych chi'n gallu clywed? Ydych ddarlun yn newid wrth i'r gerddoriaeth newid? Ydy'r darn yn atgoffa chi o un rhywbeth?	Creu darlun gyda phaent wrth wrando ar y gerddoriaeth. Paentio sut mae'r darn yn gwneud iddyn nhw deimlo/ gweld yn ei dychymyg Asesu ffurfiannol- ateb cwestiynnau



Dyma esiamplau paentiadau disgyblion.

Gan fod fy ngwersi'r wythnos yma yn seiliedig ar Noson Guto Ffowc roeddwn i eisiau dysgu gwers yn seiliedig ar y celfyddydau mynegiannol. Trafodais hyn gyda'r mentor dosbarth ac fe wnaeth hi gyflwyno darn o gerddoriaeth i mi a oedd yn cyd-fynd gyda'r thema hon. Y darn o gerddoriaeth oedd 'Mandel fireworks for the royal family'. Cyflwynais y darn o gerddoriaeth a hanes y darn i'r plant yn ystod sesiwn agoriadol y wers. Fe wnes i gyflwyno termau cerddoriaeth i'r disgyblion hefyd megis tempo, ansawdd, dynameg wrth wrando ar y gerddoriaeth fel dosbarth. Y brif dasg i'r disgyblion oedd gwrandao ar y darn o gerddoriaeth 'Mandel Fireworks for the Royal Family' a phaentio beth oedd y gerddoriaeth yn gwneud iddyn nhw deimlo neu weld yn ei feddwl. Roedd y dasg felly'n hybu sgiliau creadigol y plant, roedd dewis gyda nhw beth i baentio. Mae'r allu i feddwl yn greadigol yn sgil bywyd mae'n holl bwysig gan ei fod yn sgil dynol ni all cael ei chreu gan technoleg neu cyfrifiaduron (OECD, 2019, t.19). Roedd y plant yn mwynhau'r dasg yma a braf oedd gweld nhw'n mynegi eu teimladau a dychymyg trwy baentio. Er hyn yn ystod y wers roedd ychydig o ddisgyblion yn pryderu beth oedden nhw'n paentio yn anghywir gan ei fod mor wahanol i waith eu cyfoedion. Felly tro nesaf byddai'n gwneud yn siŵr i atgyfnerthu ar ddechrau'r wers ac yn ystod y dasg ni fydd llun cywir neu anghywir ac mae lluniau pawb yn wahanol ond yn gyfartal yn eu daioni.

Adfyfrio'n Beirniadol

Saturday, November 16, 2019 11:25 AM

Yn ystod Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP) bloc un addysgais o fewn ysgol yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r ysgol yn un arloesol o ran y cwricwlwm ac mae tua 300 o blant yn yr ysgol (Estyn, 2016). Fe fydd y traethawd hwn yn ffocysu ar dair pedagogedd addysgegol sy'n deillio o'r ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015, t.1). Y tair egwyddor ydy asesu ar gyfer dysgu, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a chymysgedd o ddulliau megis sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol. Byddaf yn trafod y tair egwyddor a'r llenyddiaeth briodol sydd yn cyd-fynd ac yn adfyfrio'n gritigol ar fy addysgu o'r egwyddorion yma. Fe fyddai'n beirniadu fy hun wrth gynllunio ac addysgu yn ogystal â gosod targedau er mwyn gwella'r egwyddorion hyn wrth i mi addysgu.

Mae pennod chwech 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015, t.1) yn ffocysu ar 'asesu', ac mae asesu ar gyfer dysgu yn rhan o hyn. Yn ôl Donaldson mae cynllunio'n addas a gofalus yn hynod o bwysig ar gyfer asesu (Donaldson, 2015, t.76) ac fe fydd yr asesu yma'n "digwydd yn anffurfiol yn aml" (Donaldson, 2015, t.76). Mae ymchwil yn y maes hwn wedi dangos elw a chynnydd gan blant yn eu perfformiad a chymhelliad wrth ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010, t.7). Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael ei chategoreiddio mewn i dri maes sef cwestiynu, ansawdd adborth a hunanasesu ac asesu cyfoedion (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010, t.7). Mae Cwricwlwm 2022 yn adlewyrchu'r angen o ddefnyddio hunanasesu ac asesu cyfoedion. Pwysleisir y ddogfen bwysigrwydd datblygu sgiliau hunanasesu gan ei bod yn "ffordd bwysig o helpu plant... i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain" (Donaldson, 2015, t.80). Wrth i blant asesu ac adfyfrio ar eu perfformiad a dealltwriaeth mae'n bwysig bod meini prawf clir ganddynt er mwyn gallu cyflawni hyn (Donaldson, 2015, t.80). Fe fydd yr allu i hunanasesu fel hyn yn medru adlewyrchu meysydd, cwestiynau neu themâu dydy'r dysgwr ddim yn teimlo'n hyderus nac yn deall (Donaldson, 2015, t.80). Mae'r ddogfen yma hefyd yn trafod effeithiolrwydd o ddefnyddio asesu cyfoedion o fewn yr ystafell ddosbarth. Mae'r math yma o asesu yn galluogi'r 'aseswr' sef y plentyn i "galw am dealltwriaeth dwfn o natur y dysgu ei hun er mwyn gwneud gwerthusiadau o'r fath" (Donaldson, 2015, t.80). Felly wrth i blant asesu gwaith eu cyfoedion maent hefyd yn asesu gwaith ei hun, nid oes syndod felly bod asesu cyfoedion yn rhan annatod o asesu ar gyfer dysgu.

Wrth drafod asesu ar gyfer dysgu Dylan William a Paul Black ydy un o brif enwau'r maes. Yn 1998 cyhoeddwyd eu gwaith "Inside the Black Box" (Black a William, 1998, t.6) oedd yn trafod sut i gynyddu safonau gan ddefnyddio asesu yn y dosbarth. Yn ôl Black a William mae hunanasesu gan ddysgwyr yn gydran hanfodol o asesiad ffurfiannol (Black a William, 1998, t.6). Yn ei lyfr 'Embedded Assessment' mae William yn disgrifio asesu fel pont rhwng dysgu ac addysgu (William, 2017, t.56). Trafododd ef hefyd bod asesu ar gyfer dysgu yn pwysleisio'r angen am dystiolaeth o ansawdd gwell. Fe fydd hyn yn galluogi'r athro cymryd mewn i ystyriaeth yr holl ddysgwyr ac nid dim ond y rhai sydd yn lleisiol iawn (William, 2017, t.200). Mae William yn adlewyrchu bod y ffocws ar y dystiolaeth yma'n cyfiawnhau 'asesu' yn y term 'asesu ar gyfer dysgu' (William, 2017, t.200). Fel dywedir William mae asesu ar gyfer dysgu yn hanfodol er mwyn i lais pob disgybl cael ei chlywed er mwyn sicrhau dysgu neu ble mae angen mwy o gymorth. Fel y mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu mae adborth yn rhan hanfodol o asesu ar gyfer dysgu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010, t.7). Yn ôl Hattie a Yates mae derbyn adborth yn caniatáu'r dysgwr i allu "close a critical gap" (Hattie a Yates, 2014, t.66). Mae adborth yn hynod o bwysig gan ei bod yn awdurdodi dysgwyr ac yn caniatáu'r dysgwr i allu symud ymlaen, cynllunio, addasu ac ail feddwl (Hattie a Yates, 2014, t.66).

Yn ogystal â phwysigrwydd asesu ar gyfer dysgu mae Cwricwlwm 2022 yn adlewyrchu'r angen am gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Mae'r gallu i ddysgu'n drawsgwricwlaidd yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd uchel o fewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol (Donaldson, 2015, t.40). Ond mae angen i ddysgwyr derbyn y cyfleoedd hyn yn aml er mwyn eu "datblygu, eu hymestyn a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm" (Donaldson, 2015, t.40). Fe fydd y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn "cael eu cynnwys yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad" (Donaldson, 2015, t.68), ond mae her i'r cyfrifoldebau hyn. Fe ddylen nhw gael ei "cymhwyso mewn ffordd naturiol a dilys yn hytrach nag fel elfennau ychwanegol" (Donaldson, 2015, t.69). Yn debyg, dywedir Barnes fod dysgu'n

drawsgwricwlaidd yn hyrwyddo dilysrwydd addysgu a dysgu (Barnes, 2015, t.271). Un o'r 12 egwyddor addysgegol ydy i greu "cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu" (Donaldson, 2015, t. 67), ac felly mae dilysrwydd yn elfen bwysig iawn o ran cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Yn ôl Barnes ,mae gan ddysgu ac addysgu'n drawsgwricwlaidd hanes hir (Barnes, 2015, t.261) ac mae'r defnydd o ddulliau trawsgwricwlaidd yn medru darparu safbwynt newydd a dymunol i blant ac i'r athrawon (Barnes, 2015, t.275).

Yn ogystal â phwysigrwydd asesu ar gyfer dysgu mae Cwricwlwm 2022 yn adlewyrchu'r angen am gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Mae'r gallu i ddysgu'n drawsgwricwlaidd yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd uchel o fewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol (Donaldson, 2015, t.40). Ond mae angen i ddysgwyr derbyn y cyfleoedd hyn yn aml er mwyn eu "datblygu, eu hymestyn a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm" (Donaldson, 2015, t.40). Fe fydd y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn "cael eu cynnwys yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad" (Donaldson, 2015, t.68), ond mae her i'r cyfrifoldebau hyn. Fe ddylen nhw gael ei "cymhwyso mewn ffordd naturiol a dilys yn hytrach nag fel elfennau ychwanegol" (Donaldson, 2015, t.69). Yn debyg, dywedir Barnes fod dysgu'n drawsgwricwlaidd yn hyrwyddo dilysrwydd addysgu a dysgu (Barnes, 2015, t.271). Un o'r 12 egwyddor addysgegol ydy i greu "cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu" (Donaldson, 2015, t. 67), ac felly mae dilysrwydd yn elfen bwysig iawn o ran cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Yn ôl Barnes ,mae gan ddysgu ac addysgu'n drawsgwricwlaidd hanes hir (Barnes, 2015, t.261) ac mae'r defnydd o ddulliau trawsgwricwlaidd yn medru darparu safbwynt newydd a dymunol i blant ac i'r athrawon (Barnes, 2015, t.275).

Creda Michelsen bod dysgu ac addysgu'n drawsgwricwlaidd yn hyrwyddo sgiliau cydweithio, gweithio fel tîm, dealltwriaeth gilyddol, adlewyrchiadau a phrofiadau (Michelsen yn Timmerman, 2017, t.3). Er hyn, mae Cooper a Rowley yn mynegi bod cyfyngiadau i gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Yn ôl nhw, mae cynllunio'n drawsgwricwlaidd yn codi pryderon go iawn i athrawon yn enwedig i gael cydbwysedd rhwng canfyddiadau athrawon o sut mae pynciau'n cysylltu â dealltwriaeth pobl eraill am y cysylltiadau hyn (Cooper a Rowley, 2009, t.2). Adlewyrchai Barnes gall addysgu'n drawsgwricwlaidd hybu llais y disgybl a chreu "child led learning" (Barnes, 2015, t. 276). Yn ei farn ef mae pedagogedd dysgu ac addysgu'n drawsgwricwlaidd yn medru caniatáu i blant dewis y profiadau sy'n bwysig iddyn nhw a gall athrawon cynllunio gyda diddordeb y plant mewn golwg (Barnes, 2015, t.277). Mae nifer o erthyglau 'Hawliau Plant i Gymru' megis erthygl tri, 12 a 29 yn mynegi'r hyn dywedai Barnes am bwysigrwydd rhoi anghenion y plentyn yn gyntaf (Hawliau Plant i Gymru, 2016).

Mae Cwricwlwm 2022 yn cynnwys pedagogedd addysgegol sy'n seiliedig ar addysgu a dysgu trwy ddefnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys sgiliau datrys problemau a chreadigol yn ogystal â medru meddwl mewn modd beirniadol (Donaldson, 2015, t.65). Mae addysgeg sy'n cynnwys y sgiliau yma yn medru "ysgogi dysgu effeithiol" (Donaldson, 2015, t.65) gan y dysgwyr. Yn ôl yr OECD mae meddwl yn greadigol ac yn feirniadol yn "crucial ingredient" (OECD, 2019, t.19) i gyfnwidiad. Dangosodd arolwg 'World Economic Forum's "Future of Jobs' " yn 2018 (OECD, 2019, t.19) bod y gallu i feddwl yn feirniadol ac i fod yn greadigol ymhlith y deg sgil mwyaf pwysig o fewn y byd gwaith (OECD, 2019, t.19). Maent yn rhagweld pwysigrwydd y sgiliau yma i godi eto erbyn 2020 gan symud i safleoedd ail a thrydydd (OECD, 2019, t.19). Mae'n amlwg bod y sgiliau hyn yn holl bwysig i'r byd gwaith a gellir dadlau mai sgil bywyd ydyn nhw oherwydd hyn. Nid oes syndod felly bod addysgu gan ddefnyddio'r cymysgedd o ddulliau yn bedagogedd addysgegol.

Mae'r byd rydym yn byw yn llawn technoleg, o ganlyniad i hyn y mae cymhelliad newydd wedi ei chreu er mwyn datblygu sgiliau megis creadigrwydd a meddwl yn feirniadol (OECD, 2019, t.18). Mae'r cymhelliad hwn wedi ei greu gan fod y sgiliau yma'n rhai dynol a ni ellir cael ei greu gan "automated or simulated by computers" (OECD, 2019, t.18). Mae hyn felly'n adlewyrchu pwysigrwydd datblygu'r sgiliau yma o fewn ein plant a phobl ifanc. Yn ogystal â'r byd gwaith mae sgiliau creadigol a meddwl yn feirniadol yn cyfrannu at les pobl ac i gymdeithas ddemocrataidd (OECD, 2019, t.20). Gwelwyd eu pwysigrwydd trwy dacsonomeg Bloom, lle maent wedi ei gosod ar y brig (OECD, 2019, t.20). Er bod gwaith Bloom yn cael ei feirniadu maent yn adlewyrchu negeseuon allweddol, mae tasgau ymarferol a deallus yn cyfrannu tuag at les yr unigolyn (OECD, 2019, t.20). Yn ôl Cropley mae creadigrwydd yn ymddangos fel rhan annatod o fod yn blentyn (Cropley, 2001, t.28). Mae creadigrwydd yn helpu plant i dyfu a datblygu (Cropley, 2001, t.28), nid oes syndod felly bod un o bedwar pwrpas Cwricwlwm 2022 yn cynnwys 'cyfranwyr mentrus creadigol' (Donaldson, 2015,

t.31).

Mae'r OECD yn datganu bod dealltwriaeth flaenorol yn bwysig i ddatrys problemau, er hynny mae datrys problemau yn defnyddio dealltwriaeth newydd a hen mewn ffordd newydd i allu datrys y broblem (OECD, 2013, t.122). Yn ogystal â dealltwriaeth flaenorol mae'r gallu i feddwl yn greadigol ac yn feirniadol yn "rhan annatod o'r broses datrys problemau" (Donaldson, 2015, t.6). Yn sicr, mae'r cymysgedd o ddulliau'n cydgysylltu gyda'i gilydd wrth ddatrys problem. Mae'r gallu i ddatrys problem yn bwysig i ddysgwyr gan ei bod yn caniatáu iddyn nhw "dadansoddi... a gwerthuso syniadau" (Donaldson, 2015, t.65). Mae datrys problemau yn rhoi cymorth i blant i ymdopi yn y byd tu allan i'r ysgol, ac yn rhoi mwynhad i'r dysgu gan fod y plant eu hunain yn darganfod pethau drostynt ei hunain (McCain, 2005, t. 17 a 20). Mae'n amlwg felly bod datrys problemau yn hybu annibyniaeth y plant, ac yn rhoi cyfrifoldeb iddynt dros ddysgu ei hunain, fel y mae'r degfed pedagogedd addysgegol yn dweud (Donaldson, 2015, t.69). Mae addysgu a dysgu'r cymysgedd o ddulliau yma'n hynod o bwysig yn enwedig wrth edrych i ddyfodol ein dysgwyr a'r byd gwaith fe fydden nhw'n rhan ohono.

Yn ystod wythnos arsylwi yn PAP 1 arsylwais ar dechnegau asesu ar gyfer dysgu'r mentor dosbarth. Sylweddolais fod y mentor dosbarth yn defnyddio techneg cwestiynu ar ddechrau gwersi a sesiynau sef un o dri phrif faes asesu ar gyfer dysgu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010, t.7). Roedd y cwestiynau'n adlewyrchu dysgu blaenorol y plant (Donaldson, 2015, t.67), yn ogystal ag asesu dealltwriaeth y plant ynglŷn â thestun newydd. Datganodd y mentor dosbarth i mi ei bod hi'n defnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu ar lafar yn fwy na defnyddio slipiau mewn llyfr. O ganlyniad i hyn, wrth gynllunio fe wnes i'n siŵr fy mod yn cynnwys nifer o gwestiynau yn ystod sesiwn agoriadol a sesiwn cloi'r wers fel rhan o asesu ffurfiannol. Roedd y cwestiynau yma'n rhai agored a chaeedig, a dewisais blant o lefelau allu gwahanol er mwyn i mi allu asesu eu dealltwriaeth.

Wrth ddod i adnabod y plant a'i gallu yn ystod wythnosau cyntaf y PAP cynlluniais nifer o wersi a oedd yn cynnwys asesu cyfoedion ar ddiwedd y wers fel dosbarth cyfan. Dewisais y dull hwn gan ei fod yn eithaf anffurfiol ac yn "creu amgylchedd diogel" (Donaldson, 2015, t.68), ac roeddwn i eisïau gweld pa fath o ymatebion rhoddodd y plant i waith eu cyfoedion. Teimlaf yn hapus iawn gydag ymateb y plant yn ystod y gweithgareddau yma achos llwyddon nhw i roi adborth synhwyrol mewn ffordd sensitif. Erbyn canol y PAP teimlais yn fwy hyderus gyda strategaeth asesu cyfoedion. Penderfynais i ddefnyddio strategaeth 'meddwl, paru, rhannu' a 'dwy seren a dymuniad' (gwelir enghraifft un asesu ar gyfer dysgu) er mwyn i mi allu asesu sgiliau trafod y plant. Daeth yn amlwg iawn bod y plant wedi mwynhau'r dull yma o asesu cyfoedion. Credaf fod y dull yma'n fwy anffurfiol ac yn fwy diddorol i gymharu â'r defnydd o gwestiynau i'r dosbarth cyfan neu unigolion a defnyddiais yn y gwersi blaenorol.

Wrth i mi adfyfrio ar y wers (yn enghraifft un asesu ar gyfer dysgu) penderfynais arbrofi gydag asesu ar gyfer dysgu yn ysgrifenedig gan ddefnyddio slipiau yn llyfrau'r plant. Roeddwn i am weld os oedd ymateb y dysgwyr yn wahanol i'r fath o asesu mwy ffurfiol yma. Defnyddiais slip syml oedd yn cynnwys 'beth oedd yn dda' 'beth sy angen gwella' ac roeddwn i eisïau i'r plant marcio gwaith eu cyfoedion. Esboniais iddynt ar ddechrau'r wers am y slip ac roedd llawer iawn o blant wedi gwneud yn glir nad oeddynt yn hoffi'r syniad yma o asesu. Trafodais yn gyflym gyda'r plant pa fath o bethau dylai'r slip gynnwys, a dylen nhw ddefnyddio meini prawf llwyddiant y dasg er mwyn cwblhau'r slip. (Gwelir enghraifft tri asesu ar gyfer dysgu). Ar ôl i mi farcio gwaith y dosbarth roedd yn eglur iawn i mi fod y plant o lefel uwch y dosbarth wedi medru cwblhau'r slip fel gofynnais i gan ddefnyddio'r meini prawf llwyddiant. Ond roedd mwyafrif o'r dosbarth wedi gweld hi'n anodd iawn i wybod beth i ysgrifennu, roedd y dasg yma'n rhy heriol iddynt. Yn y dyfodol fe fyddai'n creu taflen gydag esiamplau o beth gallent roi ar y slip asesu er mwyn rhoi cymorth i'r plant yma.

Yn edrych yn ôl ar y profiad yn bloc un PAP un, teimlaf doeddwn i ddim wedi gwneud digon o asesu gwaith plant yn ystod y wers a rhoi adborth unigol yn syth er mwyn iddyn nhw gwblhau tasgau. Mae adborth yn un o'r tri phrif faes o asesu ar gyfer dysgu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010, t.7). Ac felly wrth symud ymlaen i bloc dau PAP un a PAP dau rydw i am ffocysu ar roi adborth yn rheolaidd i blant yn ystod tasg er mwyn i'r plant allu gwella eu gwaith.

Ar ddechrau bloc un PAP un, prif bryder i mi wrth addysgu oedd cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Teimlaf yn nerfus wrth gynllunio gwers 'trawsgwricwlaidd' gan nad oeddwn i'n hollol siŵr os oedd y wers yn naturiol yn hybu'r cyfrifoldebau yma. Er hyn yn ystod yr wythnos gyntaf cynlluniais wers

ynglŷn â chreu cylchedau trydan gan ddefnyddio rhaglen ar wefan priodol (gwelir enghraifft dau yn gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd). Er bod ychydig o broblemau technolegol ac amseru roeddwn i'n hapus gyda'r wers hon. Fe wnaeth nifer o blant gofyn i mi beth oedd enw'r gwefan er mwyn iddyn nhw barhau gyda'r dasg yn y tŷ ar y cyfrifiadur. Braf iawn oedd clywed hyn a theimlais yn falch iawn yn enwedig wrth ystyried pwysigrwydd pedagogedd addysgegol deg sy'n adlewyrchu dylai "plant... cymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain" (Donaldson, 2015, t. 69).

Wrth i mi gynllunio gwers yn seiliedig ar Blant mewn Angen yr wythnos ganlynol teimlaf fod elfennau trawsgwricwlaidd wedi ei chreu yn fwy naturiol sydd yn hynod o bwysig i'r pedagogedd addysgegol yma (Donaldson, 2015, t.69). Cynlluniais dasg llythrennedd o ysgrifennu e-bost yn seiliedig ar wahoddiad i ddiwrnod o hwyl ar gyfer Plant mewn Angen (gwelir enghraifft 1 yn gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd). Gan adfyfrio ar y wers hon, credaf fy mod i wedi rhoi gormod o gymorth o ran adnoddau i'r plant o lefel gallu uwch y dosbarth. Yn anffodus, teimlaf fy mod wedi gwneud hyn mwy nag unwaith yn ystod fy mhrofiad dysgu. Ni ddylwn wedi rhoi brawddegau agoriadol i ddisgyblion o lefel uwch, er mwyn ei ymestyn a sicrhau roedd y dasg gydag elfen o her iddynt.

Yn ystod gwers drawsgwricwlaidd o gracio codau , dylwn i wedi ymestyn plant uwch y dosbarth eto gan alluogi iddynt greu brawddegau ei hun yn lle defnyddio brawddeg enghreifftiol (gwelir enghraifft 3 yn gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd).

Erbyn diwedd bloc un PAP un teimlaf fod gen i well dealltwriaeth ynglŷn â chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Daeth hyn yn bennaf o drafodaeth gyda thiwtor Prifysgol a oedd wedi esbonio'r cyfrifoldebau yma mewn ffordd syml. Ac felly teimlaf yn fwy hyderus ar gyfer y bloc nesaf i gynllunio ac addysgu'n drawsgwricwlaidd yn fwy effeithiol ac yn fwy naturiol. Er mwyn symud ymlaen ac i wella fy addysgu a chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, rydw i am ffocysu ar wahaniaethu'n fwy effeithiol gan ffocysu yn arbennig ar ymestyn plant lefel uwch y dosbarth.

Mae pedagogedd addysgegol pedwar yn ffocysu ar "ddefnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys... sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol" (Donaldson, 2015, t.65). Credaf fy mod wedi cynllunio gwersi sydd wedi cynnwys un o'r sgiliau yma mewn mwyafrif o'r gwersi. Wrth adfyfrio, sylweddolais fy mod wedi cynllunio a dysgu nifer o wersi a oedd yn hybu a datblygu creadigrwydd y plant. Un o fy ngwersi cyntaf oedd tasg o adnabod elfennau cerddorol mewn darn o gerddoriaeth, a phaentio beth oedd y plant yn teimlo neu'n dychmygu wrth wrando ar y darn (gwelir enghraifft 3 yn gymysgedd o ddulliau). Mae'r gallu i feddwl yn greadigol yn sgil bwysig iawn o fewn y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' gan ei bod yn rhan "annatod o'r broses datrys problemau" (Donaldson, 2015, t.66). Yn ogystal nid yw creadigrwydd yn rhywbeth sy'n gallu cael ei chreu neu ddynwared gan gyfrifiaduron neu dechnoleg (OECD, 2019, t.19,). Teimlaf yn hapus gyda'r gwersi a oedd yn hyrwyddo sgiliau creadigol gan eu bod wedi fy ngalluogi i ddod i adnabod y plant yn well. Gwelais yn syth y plant oedd yn hoffi gwneud pethau creadigol a defnyddio eu dychymyg ond hefyd gwelais ansicrwydd rhai yn ystod y tasgau yma. (Mae enghraifft o'r ansicrwydd yma yn cael ei weld yn enghraifft tri yn gymysgedd o ddulliau). Wrth adfyfrio ar wersi creadigol y bloc cyntaf teimlaf fe ddylwn wedi esbonio i'r plant ni fydd llun neu gread 'anghywir' gan fod pob disgybl yn wahanol ac mae gan bawb eu dychymyg unigryw. Gobeithiaf fe fydd hyn yn rhoi fwy o hyder i'r plant yn y dosbarth sydd yn teimlo nad ydynt yn 'dda' wrth feddwl yn greadigol.

Er mwyn cynnwys y Cwricwlwm Cymreig yn fy addysgu yn ystod bloc un dewisais ffocysu ar chwedl 'Cantre'r Gwaelod' ar ôl trafodaeth gyda'r mentor dosbarth. Cynlluniais wers datrys problem yn seiliedig ar y chwedl er mwyn i'r plant gweld y chwedl trwy elfen rhifedd yn lle llythrennedd. Wrth adfyfrio ar y wers hon (gwelir enghraifft un yn gymysgedd o ddulliau) sylweddolais bod angen gwella fy cynllunio a addysgu er mwyn sicrhau her i'r plant uwch ei gallu. Credaf bod angen i mi wahaniaethu gwaith yn fwy effeithiol, yn enwedig i blant o lefel uwch y dosbarth.

Erbyn canol y profiad, roeddwn i'n teimlo'n fwy hyderus wrth addysgu'r plant felly cynlluniais wers ymarferol er mwyn dathlu pen-blwydd 'Hawliau Plant i Gymru'. (Gwelir enghraifft 2 yn gymysgedd o ddulliau). Yn ystod y wers, dangosodd sawl aelod o'r dosbarth eu bod yn cael anhawster wrth gydweithio'n effeithiol. Roedd hyn yn amlwg hefyd yn ystod fy addysgu yn bloc un ac nid dim ond yn y wers hon. Roeddwn i'n wyladwrus iawn i ddewis partneriaid a grwpiau a oedd yn dod o lefelau gallu gwahanol er mwyn sicrhau tegwch. Er hyn, teimlaf dylwn i wedi gadael i'r plant dewis partner ei hun

ar gyfer un o'r tasgau yn ystod bloc un er mwyn gweld os oedd hyn yn cael unrhyw effaith ar eu gallu i gydweithio.

Mae cyd-weithio yn sgil holl bwysig, gellir gweld hyn gan ei fod yn bedagodedd addysgegol 12 yn ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015, t.70). Wrth adfyfrio, teimlaf fy mod wedi gallu hyrwyddo pwysigrwydd cyd-weithio'n well yn ystod y bloc cyntaf. Teimlaf yn hapus ar y cyfan gyda fy nghynllunio ac addysgu gan ddefnyddio'r cymysgedd o ddulliau, a theimlaf yn falch fy mod wedi cynllunio gwersi a oedd yn hyrwyddo'r sgiliau yma. Wrth ddechrau bloc dau teimlaf yn fwy hyderus gyda dealltwriaeth well o sut i gynllunio ac addysgu'n addas ac effeithiol ar gyfer y cymysgedd o ddulliau yma.

Ac felly wrth adfyfrio ar fy addysgu yn ystod bloc un PAP un teimlaf yn hapus gyda dechrau fy natblygiad o ran y pedagogedd addysgegol yma. Rydw i'n eithaf hapus gyda fy natblygiad o ran asesu ar gyfer dysgu yn enwedig wrth asesu cyfoedion. Ond rydw i am weithio ar roi adborth yn rheolaidd yn ystod gwers er mwyn i'r dysgwyr allu gwella eu gwaith. Y mae cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ac addysgu gan ddefnyddio cymysgedd o ddulliau wedi dangos i mi fod angen i mi wahaniaethu'n fwy effeithiol a mwy trylwyr a sicrhau bod fy ngwersi yn cynnwys her i'r plant uwch ei gallu yn ogystal â rhoi cymorth i ddysgwyr o lefel is y dosbarth. Yn symud ymlaen fe fyddai'n ffocysu ar yr elfennau hyn er mwyn gwella fy addysgu a sicrhau cyrhaeddiad pob disgybl.

Barnes, J. (2015) 'An Introduction to Cross Curricular Learning', yn Driscoll, P. a Lambirth, A. a Roden, J. (gol.) *The Primary Curriculum A Creative Approach*. 2il Arg. SAGE Publications: London.

Black, P. a William, D. (1998). *Inside the Black Box: Raising Standards Through Classroom Assessment*. School of Education, King's College, London: United Kingdom.

Cropley, A. (2001). *Creativity in education and learning a guide for teachers and educators*. Routledge: Oxon.

Donadlson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. OGL

Estyn. (2016). *Adroddiad*.

<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Cynwyd%20Sant%20en.pdf> (Darllenwyd 19ed o Rhagfyr 2019)

Hawliauplant.cymru. (2015). *Deall eich Hawliau*. [ar-lein] Available at: <http://www.hawliauplant.cymru/index.php/plant-a-phobl-ifanc/hawliau/file> (Darllenwyd: 29 Rhagfyr 2019).

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2010). *Why develop thinking and assessment for learning in the classroom?* [ar-lein] Ar gael yn: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/05/ae/7b/09/4ca143999dea481cd5d23846/why-develop-thinking-and-assessment-for-learning-in-the-classroom.pdf> (Darllenwyd: Rhagfyr 29).

OECD (2019). "Overview", yn *Fostering Students' Creativity and Critical Thinking: What it Means in School*, OECD Publishing, Paris [ar-lein] Ar gael yn: <https://doi.org/10.1787/8391a054-en>. (Darllenwyd: 30 Rhagfyr 2019).

OECD (2013). *PISA 2012 Assessment and Analytical Framework: Mathematics, Reading, Science, Problem Solving and Financial Literacy*. OECD Publishing. [ar-lein] Ar gael yn: <http://dx.doi.org/10.1787/9789264190511-en> (Darllenwyd: 31 Rhagfyr).

Cooper, H. A Rowley, C (gol.) (2009). *Cross-curricular Approaches to Teaching and Learning*. SAGE Publications: London.

McCain, T. (2005). *Teaching for Tomorrow Teaching Content and Problem- Solving Skills*. Corwin Press: California.

Michelsen, C. yn Timmerman, V. (2017). *Cross-curricular teaching: How does it work*. DOI: <http://www.ciep.fr/sites/default/files/atoms/files/crosscut-cross-curricular-teaching-how-does-it-work-synthesis.pdf> (Darllenwyd Rhagfyr 29 2019).

Wiliam, D. (2017) 'Assessment and learning: some reflections, *Assessment in Education: Principles, Policy & Practice*, 24(3), tud. 394-403. DOI: 10.1080/0969594X.2017.1318108

Yates, G. A Hattie, J. (2014). *Visible Learning and the Science of How we Learn*. Routledge: Oxon.